Cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberffraw a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw, am 7 yh nos Fercher 20ted Tachwedd 2019

Presennol: *J H Owens,(Cad) M T Smithurst, A.Jones, B. Owen, Mrs. C. Davies, E. Evans, Cyng. Bryan Owen. Clerc: Richard Emlyn Rowlands,.*

Ymddiheuriadau: *Cyng P. Rogers, R. F. Owen*

1. **Neuadd Glannau Ffraw**
Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb ac estynnodd wahoddiad i Mr a Mrs Mahon siarad yn gyntaf. Cafwyd diweddariad ar weithgareddau pwyllgor y neuadd a mynegwyd pryderon ynglyn â'r gost o redeg Toiled Cyhoeddus a'r costau dwr ychwanegol. Bwriedir gwneud ceisiadau am gymorth ariannol. Cynhaliwyd Ffair Grefftau llwyddiannus iawn ar ddydd Sadwrn 16eg Tachwedd. Roedd gan yr Eglwys raffl, stondin tombola a stondin lluniaeth ysgafn yn y ffair..
Gwaith atgyweirio'r neuadd wedi ei gwblhau.
Gwaith trin ar y boiler yn gostus.

2. **Sands of LIFE**
Mr Denyer yn egluro for Sands of LIFE yn gynllun cadwraeth sylweddol i adnewyddu a gwella'r twyni tywod mewn pedwar ardal o gadwraeth arbennig, dros 10 safle yng Ngogledd a De Cymru. Gweinyddir y cynllun gan Gyfoeth Naturiol Cymru a bwriedir adnewyddu a gwella cynefin ar gyfer ein bywyd gwyllt mwyaf prin.
Mae Tywyn Aberffraw yn un o'r ardaloedd a glustnodwyd ar gyfer y gwaith o fewn Ardal Gadwraeth Arbennig o Abermenai i Aberffraw. Gwaith wedi ei gynllunio i'w gwblhau dros y 3 mlynedd nesaf yn cynnwys:-
a) Newid y twyni i greu symudiad yn y tywod.
b) Ail-greu cynefin gwlyb.
c) Hyrwyddo pori cynaliadwy gan gwningod.
d) Tynnu llwyni a rhywogaethau nad ydynt yn gynhenid.
Cynigodd ddarparu rhagor o ddiweddariadau drwy anfon ebost i SoLIFE@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

3. **Cofnodion**
Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16/10/2019 eu derbyn yn gywir, cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan AJ.

4. **Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 16/10/2019**
3.2 Arwyddbost Croesffordd Dothan. Yr arwyddbost pren ar y groesffordd angen ei adnewyddu.
Cyng.Rogers, a oedd yn absennol, wedi adrodd yng nghyfarfod mis Hydref ei fod wedi cysylltu â'r Gweithdy Anabl yng Nghaernarfon. Mae arwyddbost newydd wedi ei archebu ond nid oes gwybodaeth ynglyn â'r dyddiad y bydd ar gael. Cyng. Rogers ddim yn bresennol i roi gwybodaeth bellach.

5. **Ymweliad ag RAF Y Fali**
Y Cadeirydd a Mr. E. Evans ynghyd â'u gwragedd wedi mynychu. Cafwyd cyfle i weld o amgylch y safle gan weld nifer o awyrennau. Ymweliad dymunol a diddorol iawn.

6. **Ceisiadau Cynllunio**
Dim wedi eu derbyn

7. **Cyfrifon**
Ymddengys fod y Clerc newydd yn gyfarwydd â'r drefn gyfrifon.

8. **Gohebiaeth**
Dim eitemau i'w trafod

Cadeirydd ..... Clerc .....

9. **Unrhyw Fater Arall**

9.1. Adroddwyd fod y step yng ngiat y fynwent ger Maes Llewelyn yn rhydd ac angen sylw.
9.2. Y clo wedi ei dynnu oddi ar giat y Cae Chwarae gan fod y goriadau ar goll. Eglurodd y Cadeirydd fod y clo wedi ei dynnu er mwyn galluogi mynediad ar gyfer torri glaswellt. Cynigodd y Cadeirydd y dylid gadael y giat heb ei chloi am gyfnod a monitro'r sefyllfa.
9.3. Cynigwyd y dylid rhoi tâl o £500 i'r Clerc blaenorol fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth proffesiynol. MTS yn cynnig, A.J yn eilio.
9.5. Cyhoeddodd Mrs Christine Davies ei ymddiswyddiad o'r Cyngor gan ei bod yn bwriadu symud i Llandrillo yn Rhos. Derbyniwyd ei llythyr ymddiswyddo a diolchwyd iddi am ei gwasanaeth i'r gymuned gan ddymuno iechyd a hapusrwydd iddi yn ei chartref newydd.
9.6. Derbyniwyd llythyr ymddiswyddo hefyd gan Mr. Stuart Austin, sydd wedi symud i Langefni.

Derbyniwyd y neges ganlynol ar ddydd Sul 24ain o Dachwedd 2019. Ni fu sawl ymgais i gysylltu â Mr Rowlands dros y ffôn a thrwy ebost yn llwyddianus.

From: Richard rowlands <richardrowlands99@gmail.com>
To: "jhowens@btinternet.com" <jhowens@btinternet.com>
Sent: Sunday, 24 November 2019, 21:55:41 GMT
Subject: Community Council

John,

After due consideration over the last two or three days I have decided that I no longer wish to be the Clerk at Aberffraw Community Council to take effect immediately.

I did call at your house on Saturday afternoon but you were not in so I have left all the relevant documents in the Council meeting room in the village hall.

Richard

Cadeirydd..... Clerc.....